



QAA

Y Strategaeth

Cyflwyniad gan y Cadeirydd

Wrth i sector addysg uwch y DU symud o'r ymateb brys a gafwyd i'r pandemig COVID-19 byd-eang i mewn i sector newydd newidiedig, rydym yn wynebu cyfres benodol o heriau. Mae'r pandemig wedi codi cwestiynau o'r newydd ynglŷn â beth yw natur sylfaenol addysg uwch, yn ogystal â'r rôl gymdeithasol ac economaidd y mae'r sector yn ei chwarae mewn cymdeithas. Am mai'r Asiantaeth Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch (QAA) yw'r corff annibynnol ar gyfer sicrhau ansawdd addysg uwch y DU, rydym yma i gynnal a gwella ansawdd a safonau drwy'r cyfnod nesaf a allai fod yn un heriol.

Mae'r trafodaethau lu yr wyf wedi eu cael ar draws y sector yn dangos yn amlwg bod y newidiadau y mae'r sector addysg uwch yn parhau i'w hwynebu'n mynd i greu goblygiadau parhaol. Roedd nifer o dueddiadau'n amlwg cyn y pandemig: yr heriau ariannol o'n blaenau, y newid yn hinsawdd yr ymddiriedaeth allanol, pryderon ynglŷn ag uniondeb academiaidd a melinau traethodau, dosbarthiadau graddau, cyfraddau ymadael yn fuan, disgwyliadau am fwy o addysg dechnegol a galwedigaethol, gan gynnwys micro-gymwysterau, chwyddiant mewn graddau, amgylchedd rheoleiddiol newydd yn Lloegr, a diddordeb cryf yn y diwygiad i'r system addysg drydyddol yng Nghymru a'r Alban. Mae eraill yn newydd: y ffurfiau unigryw o ddysgu cyfunol, er enghraifft, neu'r anghenion anghyffredin o ran cymorth i fyfyrwyr.

Credaf mai yn y gwaith o dywys a chydweithio yn y meysydd hyn y gallwn fod yn hynod o werthfawr i'r sector. Mae QAA yn cael ei chydnabod ar draws y byd am ein harbenigedd mewn sicrhau ansawdd. Mae darparwyr addysg uwch a chyrrff rheoleiddio'n ymddiried ynom ni i gynnal a gwella ansawdd a safonau. Rydym yn darparu gwasanaethau arbenigol i'n haelodau o sector addysg uwch y DU, er mwyn eu galluogi i roi'r profiad gorau posib i'w myfyrwyr. Hefyd, rydym yn gweithio gyda llywodraethau, asiantaethau a sefydliadau drwy'r byd i gyd er budd addysg uwch y DU a'i henw da'n rhyngwladol.

Bydd y strategaeth hon yn tywys QAA gyda'i blaenoriaethau strategol dros y cyfnod hwn. Fel y gwnawn bob tro, rydym wedi bod yn gwrando ar ein haelodau ac ar y sector ehangach. Rydym yn hynod falch o fod yn cefnogi sector amrywiol drwy'r DU gyfan sydd ag enw da am fod ymysg y gorau yn y byd. Wrth i ddegawd newydd gychwyn, rwy'n hyderus fod QAA mewn sefyllfa gryfach nag erioed i hybu a chefnogi'r sector a chydweithio ag o.

Yr Athro Simon Gaskell, Cadeirydd Bwrdd QAA



Diben QAA

Diben QAA yw diogelu safonau academiaidd a sicrhau ansawdd ac enw da addysg uwch y DU drwy'r byd i gyd.

Rydym yn cyflawni hyn drwy weithio gyda darparwyr addysg uwch, cyrff rheoleiddio a chyrrff y myfyrwyr gan rannu'r nod o gefnogi myfyrwyr i lwyddo.

Gweithredu er budd addysg uwch y DU

O ystyried ein diben, a'r cyd-destun newidiol yr ydym yn gweithio ynddo fel corff, bydd y blaenoriaethau strategol canlynol yn tywys QAA hyd at 2025:

1

Y corff annibynnol o arbenigwyr sydd â'r cyfrifoldeb am gefnogi'r gwaith o wella a rheoleiddio addysg uwch ledled tirwedd amrywiol y DU

2

Rhoi cyngor arbenigol sy'n sicrhau safonau ac yn cefnogi gwelliant mewn ansawdd

3

Cryfhau enw da addysg uwch y DU drwy'r byd i gyd

1

Y corff annibynnol o arbenigwyr sydd â'r cyfrifoldeb am gefnogi'r gwaith o wella a rheoleiddio addysg uwch ledled tirwedd amrywiol y DU

Byddwn yn cyflawni ein swyddogaeth drwy wneud asesiadau annibynnol o safonau ac ansawdd o fewn y fframweithiau sicrhau, gwella a rheoleiddio ansawdd sy'n berthnasol i bob gwlad o'r Deyrnas Unedig. Bydd ein gwaith asesu, a'r hyn a ddysgw'n ac a rannwn ohono, yn:

- Sicrhau rheolaeth ar sail egwyddorion drwy gyfrwng ein cyfrifoldebau fel y Corff Sicrhau Ansawdd Dynodedig yn Lloegr
- Arloesi drwy bartneriaeth, gan ddarparu mwy na dim ond sicrhau, drwy gyfrwng y Fframwaith Gwella Ansawdd yn yr Alban
- Ymwreiddio'r Agenda Gwella Ansawdd i Gymru
- Cefnogi'r llywodraeth a'r sector yng Ngogledd Iwerddon i ddatblygu dulliau ar gyfer y dyfodol

2

Rhoi cyngor arbenigol sy'n sicrhau safonau ac yn cefnogi gwelliant mewn ansawdd

Byddwn yn cefnogi ac hefyd yn herio ein haelod-sefydliadau i wella ansawdd darpariaeth addysg uwch y DU, er mwyn rhoi'r profiad gorau posib i'r myfyrwyr. Byddwn yn cyflawni hyn drwy wneud y canlynol:

- Cadw Cod Ansawdd y DU yn berthnasol a darparu arweiniad wrth ystyried safonau ac ansawdd er mwyn cefnogi ein haelodau i ymateb i'r heriau cyfredol
- Datblygu a chynnal partneriaethau gwella, gan rannu'r hyn a ddysgir ymhob gwlad o'r DU a thramor
- Cynnal gweithgareddau gwella sy'n ddeinamig ac yn berthnasol ymhob gwlad o'r DU ac sydd wedi eu hysbysu gan arferion rhyngwladol a chyfranogaeth o bob rhan o'r byd
- Cefnogi gwaith partneriaeth effeithiol â'r myfyrwyr i sicrhau ansawdd
- Rhoi cyngor i'r llywodraethau ym mhob rhan o'r DU
- Gweithio'n effeithiol mewn partneriaeth â chyrrff proffesiynol, statudol a rheoleiddio a chyflogwyr yn y DU er mwyn cefnogi ein haelodau
- Gwella llwybrau at addysg uwch drwy'r Diploma Mynediad i AU

3

Cryfhau enw da addysg uwch y DU drwy'r byd i gyd

Mae ein gwaith gyda llywodraethau ac asiantaethau sicrhau ansawdd addysg uwch drwy'r byd i gyd yn rhoi ehangder unigryw o arbenigedd byd-eang i ni. Byddwn yn defnyddio'r ehangder a'r dyfnder arbenigedd hwn i:

- Sicrhau bod gan bobl hyder yn ansawdd addysg draws-wladol y DU
- Ehangu partneriaethau gydag asiantaethau sicrhau ansawdd a llywodraethau tramor i hybu ymddiriedaeth a hyder yn addysg uwch y DU
- Hybu diddordebau'r Deyrnas Unedig yn yr agenda polisi yn Ardal Addysg Uwch Ewrop ac wrth drafod materion ehangach sy'n ymwneud â sicrhau ansawdd
- Cynnal cynhadledd INQAAHE 2021 yn Glasgow a chynhadledd ENQA 2022 yng Nghaerdydd
- Ehangu'r gyfranogaeth yn ein rhaglenni meithrin gallu ar gyfer systemau addysg uwch tramor
- Datblygu ein rhaglen achredu ryngwladol ac agor ein haelodaeth i sefydliadau rhyngwladol credadwy

© Asiantaeth Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch 2020
Rhifau elusen gofrestrdig 1062746 ac SC037786
www.qaa.ac.uk